



Bwletin GwE

Cyfleoedd

SWYDDI GWAG GYDA GwE

Ymgynghorydd Her – Cyfnod Sylfaen (2 Swydd)

- 1 x Conwy / Sir Ddinbych
- 1 x Gwynedd / Môn

Cliciwch yma i weld yr hysbyseb.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 28 MEDI 2017

Aseswyr Newydd ar gyfer y Rhaglen

Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch (CALU)

(CYFLE I UWCH REOLWYR, ATHRAWON NEU GYNORTHWYWR ADDYSGU SY'N MEDDU AR Y STATWS CALU)

Mae GwE yn chwilio am ymarferwyr i ymuno â'r tîm sydd ynghlwm â Rhaglen Asesu Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) ar ran Llywodraeth Cymru.

Gweler yr **hysbyseb yma** am ragor o fanylion.

DYLID DYCHWELYD EICH DATGANIAD O DDIDDORDEB ERBYN 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 28 MEDI 2017

Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Hyfforddiant i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Cliciwch yma am wybodaeth am hyfforddiant yn eich Awdurdod.

Hyfforddiant i Fentoriaid Ysgol ANG ar y Safonau Newydd

Cliciwch yma am wybodaeth am hyfforddiant yn eich Awdurdod.

Cyfleoedd Allanol

MA Astudiaethau Addysg 2017-2018

Mae'r cwrs yn cynnig dau lwybr ar gyfer y rhai sydd am ennill y cymhwyster hwn.

Gall myfyrwyr ddewis dilyn ein rhaglen lawn amser o 15 mis, neu ddewis dilyn y rhaglen ran-amser. **Cliciwch yma** am rhestr o'r modiwlau sy'n cael eu cynnig, ac am ragor o fanylion.

Swyddog Rhanbarthol, Cynllun yr Ysgolion

Gwybodaeth i Ysgolion Cynradd

Diwygiadau i Broffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Aseidiadau Sylfaenol ★NEWYDD★

Yn sgil y sylwadau a gasglwyd mewn arolwg barn ymhlith ymarferwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi newid geiriad pedair ffrâm sgiliau o fewn Proffil Cryno y Cyfnod Sylfaen er mwyn eu gwneud yn gliriach. Rydym yn annog y rhai sy'n cynnal aseidiadau sylfaenol o blant ar ddechrau'r Flwyddyn Derbyn i ddefnyddio'r fersiynau diwygiedig, gan mai bwriad y rhain yw egluro'r gwahaniaeth rhwng gwahanol lefelau datblygiad plant. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

Proffil y Cyfnod Sylfaen

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn diwygiedig o 'Lawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen' (Medi 2017).

Dilynwch y **ddolen hon** i gael y fersiwn diweddaraf o'r proffil.

Datblygiad Proffesiynol ar gyfer holl

Athrawon y Cyfnod Sylfaen

DEALL CYSYNIADAU MATEMATEGOL YN Y CYFNOD SYLFAEN, GARETH METCALFE

Bydd Gareth Metcalfe yn cynnal gweithdai mathemateg yn ystod Tymor yr Hydref 2017, a Thymor y Gwanwyn 2018.

Bydd y gweithdai am ddim i holl athrawon y CS.

Bydd y gweithdai yn ddau sesiwn hanner diwrnod, i'w mynychu gan yr un athro, ac fe'u cynhelir o fewn rhyw fis i'w gilydd. Bydd llefydd yn gyfyngedig i un athro o bob ysgol, yn y lle cyntaf.

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

Hyfforddiant Into Film

Cyfle gwych i athrawon CA2 dderbyn hyfforddiant gan Into Film ar sut i ddefnyddio ffilm fel arf i ddatblygu cymhwysedd digidol a sgiliau llythrennedd dysgwyr.

Cliciwch yma i gofrestru.

Gwybodaeth i Ysgolion Uwchradd

Mathemateg Uwchradd

HYFFORDDIANT GAN YR MEI YNG NGOGLEDD CYMRU

Am ragor o fanylion, **cliciwch yma**.

(Ymddiheurwn nad yw'r hysbyseb ar gael yn y Gymraeg)

Creadigol Arweiniol ★NEWYDD★

SWYDDOG RHANBARTHOL, CYNLLUN YR YSGOLION
CREADIGOL ARWEINIOL

LLAWN AMSER, 37 O ORIAU'R WYTHNOS

Am ragor o fanylion a ffurflen gais ewch i

www.celf.cymru/swyddi

DYDDIAD CAU: 12:00 HANNER DYDD AR 25 MEDI 2017

Defnyddio Economeg Addysg i Bwysu a

Mesur Effaith Rhaglenni Gwella

Addysg Strategol (Ysgoloriaeth PhD)

SEFYDLIAD CYDWEITHREDOL ER YMCHWIL I ADDYSG,
TYSTIOLAETH AC EFFAITH (CIEREI); YSGOLION SEICOLEG A
GWYDDORAU GOFAL IECHYD PRIFYSGOL BANGOR

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU: DYDD SADWRN, 30
MEDI 2017

Lleihau Baich Gwaith

Athrawon a Phenathiaid

★NEWYDD★

Mae'r **canllaw hwn** yn ymrwymiad ar y cyd, wedi'i gymeradwyo gan Estyn, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, Cyngor y Gweithlu Addysg, undebau sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a Llywodraeth Cymru, i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr i ddarparu dysgu ac addysgu effeithiol.

Arolygiadau Estyn

MAE AROLYGIADAU ESTYN WEDI NEWID

Bydd ysgolion a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cael eu barnu ar sail pum maes allweddol bellach.

Dysgwch ragor trwy ddarllen [fframwaith ac arweiniad arolygu](#) newydd sbon Estyn.

Gwylwch eu [hanimeiddiad byr](#) am y modd maent wedi newid arolygiadau.

Digwyddiadau

Cynhadledd Ranbarthol i Ysgolion Cynradd

VENUE CYMRU, LLANDUDNO – DYDD MAWRTH, 26 MEDI 2017

Pwrpas y Gynhadledd yw gwrandao ar lais Penaethiaid a'u staff er mwyn cyd-gynllunio cyfeiriad strategol a gweithredol fel y gallwn deilwra cefnogaeth bwrpasol er mwyn cefnogi Uwch Arweinwyr i godi safonau ymhellach yn ein hysgolion.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#)

Sioe Addysg Genedlaethol

DYDD GWENER, 13 HYDREF – 9:00YB - 5:30YP – NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD

Drwy gyfrwng y Sioe Addysg Genedlaethol, cewch wybodaeth, adnoddau ac arweiniad arbenigol i ysbrydoli, grymuso a datblygu dysgwyr gwych.

Cewch ragor o wybodaeth am y digwyddiad hwn ar eu [gwefan](#).

Cracio'r Cod ★NEWYDD★

Ar 19 Mehefin, 2017 lansiodd Kirsty Williams, y Gweinidog dros Addysg, gynllun "**Cracio'r Cod**". Yma, amlinellir sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r consortia addysg rhanbarthol, prifysgolion, colegau a diwydiant, i ddatblygu cyfleoedd codio mewn ysgolion.

Dilynwch y [ddolen hon](#) am ragor o fanylion ac i fynegi diddordeb.

Cais gan Cymwysterau Cymru

★NEWYDD★

Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru yn adolygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol mewn TGCh, y mae disgyblion yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer, yn ogystal â'r sgiliau y maent yn eu datblygu drwy wneud hyn cyn dechrau gyrfa ym maes TGCh. I gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad, a dolen i'r arolygon, ewch i'w [gwefan](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn neu, os hoffech gysylltu â Chymwysterau Cymru am yr adolygiad, cysylltwch â hwy yn

adolygiadTGCh@cymwysteraucymru.org

Holiadur Tlodi ac Addysg

YMCHWILIO I FFACTORAU AC EFFEITHIAU TLODI AC UNIGEDD GWLEDIG AR GYFLAWNIADAU ADDYSGOL

Mae Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor yn cynnal ymchwil a gomisiynwyd gan ERW a GwE i ymchwilio, adolygu a dadansoddi effeithiau tlodi ac unigedd gwledig ar ganlyniadau addysgol.

[Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.

Cofiwch ddilyn [@GwEGogleddCymru](#) ar Twitter



Am fwy o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

